



## Canlyniadau dros dro wedi'u cyhoeddi ar gyfer 2020

Heddiw, rydym wedi cyhoeddi'r canlyniadau dros dro ar gyfer canlyniadau TGAU yr haf hwn yng Nghymru, ac wedi diwygio'r wybodaeth am ganlyniadau Safon Uwch a Safon UG a ddarparwyd yr wythnos diwethaf.

Gallwch ddarllen y stori lawn [yma](#).

## Dyfarnu graddau'r haf hwn – y datblygiadau diweddaraf

Un o'n gweithgareddau allweddol yw goruchwyllo'r gwaith o ddyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru yng Nghymru. Ni chynhaliwyd unrhyw arholiadau eleni, oherwydd y pandemig COVID-19.

Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog ar 17 Awst, cadarnhawyd y dylid dyfarnu'r radd orau i ddysgwyr o radd asesu'r ganolfan neu'r radd wedi'i chyfrifo sy'n deillio o safoni ar gyfer cymwysterau TGAU. Bydd y graddau hyn yn ymddangos ar y canlyniadau y mae dysgwyr yn eu cael heddiw.

Ar gyfer cymwysterau Safon Uwch, dyfernir y radd uchaf i ddysgwyr o'u GACau, eu graddau wedi'u cyfrifo neu eu canlyniadau Safon UG.

Ceir rhagor o wybodaeth am GACau [yma](#).



## Canlyniadau TGAU a Bagloriaeth Cymru Cyfnod Allweddol 4 dros dro

### Canlyniadau TGAU a Thystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4

Mae'r canlyniadau diwygiedig ar gyfer TGAU a Thystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 yn sylweddol uwch na chanlyniadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

- Ein hamcangyfrif gorau ar hyn o bryd o ganlyniadau diwygiedig TGAU 2020 cronol A\*-A yng Nghymru yw 25.9%, o'i gymharu â 18.4% yn 2019.
- Ein hamcangyfrif gorau ar hyn o bryd o ganlyniadau diwygiedig TGAU 2020 cronol A\*-C yng Nghymru yw 74.5%, o'i gymharu â 62.8% yn 2019.
- Ein hamcangyfrif gorau ar hyn o bryd o ganlyniadau diwygiedig TGAU 2020 cronol A\*-G yng Nghymru yw 99.6%, o'i gymharu â 97.2% yn 2019.
- Dim ond CBAC sy'n cynnig THS CA4, ac maen nhw wedi darparu canlyniadau dros dro i ni. Canlyniadau cronol dros dro ar gyfer graddau A\*-A yw 20.1%, o'i gymharu â 14.0% yn 2019.

Ceir yr wybodaeth lawn, gan gynnwys trosolygon o'r canlyniadau, ar ein tudalen [Canlyniadau haf 2020](#)

## Canlyniadau BTEC

Fe'm hysbyswyd bod Pearson wedi penderfynu ailraddio'r cymwysterau BTEC canlynol:

- BTEC Lefel 3 Cenedlaethol (2010 FfCCh a 2016 FfCRh)
- Dyfarniadau Technegol BTEC Lefel 1/2, BTEC Lefel 2 Technegol a
- BTEC Dyfarniadau Cyntaf Lefel 1/2.

Mae'r corff dyfarnu wedi ysgrifennu at ysgolion a cholegau i'w hysbysu am y penderfyniad hwn a bydd yn darparu rhagor o wybodaeth am gyhoeddi'r canlyniadau yn fuan. Cyhoeddir manylion pellach ar ein gwefan pan fyddant ar gael.

## Beth nesaf?

Wrth i ganlyniadau'r haf hwn gael eu cyhoeddi, bydd dysgwyr a rhieni yn chwilio am gyngor ac yn gwneud penderfyniadau ar y camau nesaf.

Mae ystod o [Gwestiynau Cyffredin](#) ar gyfer diwrnod canlyniadau ar ein gwefan, ynghyd â [graffig sy'n dangos yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr](#), o addysg ôl-16 trwy brentisiaethau a phrifysgol.

Ar gyfer y dysgwyr nad yw eu canlyniadau fel a disgwyliwyd, rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth ynghylch sut i gyflwyno [apêl](#) drwy eu hysgol neu eu coleg os ydynt yn anfodlon â'u graddau, yn ogystal â dolenni i'w helpu i olrhain eu cwrs yn y dyfodol trwy addysg a chyflogaeth.

# Tystiolaeth i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, 18 Awst

Ar ddydd Mawrth 18 Awst, gwnaethom roi tystiolaeth i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar effaith COVID-19 ar gymwysterau ac addysg yng Nghymru. Gallwch wyllo'r sesiwn [yma](#). Yn dilyn y sesiwn, cyhoeddwyd [datganiad](#) gan ein Cadeirydd, David Jones OBE DL.

**I weld y datblygiadau diweddaraf, cadwch lygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol:**

Twitter: [https://twitter.com/cymwysterau\\_cym](https://twitter.com/cymwysterau_cym)

Facebook: <https://www.facebook.com/qualswalescymcymru>

LinkedIn: [linkedin.com/company/qualifications-wales](https://www.linkedin.com/company/qualifications-wales)

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

**The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector  
Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg**

You can follow us on social media for the latest news on our work:  
Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:



*Copyright © 2020 Qualifications Wales All rights reserved.*

**Contact us:**

[comms@qualificationswales.org](mailto:comms@qualificationswales.org)

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.